

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Diogelwch Tân
# Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref
Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd




# Croeso gan Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, byddant yn tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys, ac er bod hyn yn wir, mae eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lawer ehangach na'r delweddau traddodiadol hyn.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, cyflogir pobl mewn amrywiaeth o rolau heriol ac amrywiol, ac mae'r gwaith hanfodol a wneir tu ôl i'r llen yr un mor hanfodol i sicrhau fod Gogledd Cymru'n ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

Rydym yn deall gwerth atal yn y lle cyntaf ac mae ein timau Atal yn gwneud llawer iawn o waith i amddiffyn pobl ac eiddo Gogledd Cymru drwy ostwng nifer yr achosion o dân a'i effeithiau.

Gweithio fel rhan o'n hadran Diogelwch Tân, mae ein timau Atal yn cynnal archwiliadau diogel ac iach mewn cartrefi yn y cymunedau, gan sicrhau bod aelodau bregus ein cymunedau'n derbyn cyngor a chefnogaeth i gadw'n ddiogel, tra bod ein timau diogelwch tân busnes yn cynnal archwiliadau diogelwch mewn busnesau ac eiddo dibreswyl yn y rhanbarth. Ond yr un pwrpas sydd gan y ddau dîm, sef cadw pobl yn ddiogel.

Mae ein timau Diogelwch Tân yn teimlo'n angerddol am ddiogelwch a chymerant gamau gweithredol i roi gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau, a'r colli bywyd a'r anafiadau mewn cartrefi a gweithleoedd.

Ein gwerthoedd crai yw ymgyrraedd at ragoriaeth, gan wasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym yn awyddus i gael pobl sydd â'r un gwerthoedd i ymuno â'n tîm i'n helpu i wneud Gogledd Cymru'n ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.




# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi tua 900 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy'n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a phoblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal â channoedd o filoedd o ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tân helaeth trwy ymweld â phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rôl gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni'n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Gwasanaethu'r gymuned

Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

## Pobl

Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Rôl

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mae pawb yn cyfrannu un ffordd neu'i gilydd at helpu i warchod ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol.


Gan weithio o fewn y tîm Atal, rôl y Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref yw cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, gan ddarparu cyngor diogelwch i gadw pobl ein cymunedau yn ddiogel yn ei gartrefi. Drwy gynnal ymweliadau a drefnwyd ymlaen llaw â chartrefi pobl, byddwch yn asesu eu sefyllfa bresennol o ran diogelwch tân priodol ac yn rhoi cyngor penodol ar y camau y gall trigolion eu cymryd os bydd tân. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dosturiol yn ei agwedd ac yn gweithio'n bennaf gyda'r rhai sydd wedi'u nodi fel y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau ac mewn mwy o berygl o niwed oherwydd tân yn eu cartref, sy'n cynnwys yr henoed, pobl anabl a chamddefnyddwyr sylweddau/alcohol.

Mae addysg hyd at NVQ Lefel 2 neu gyfwerth mewn pwnc iechyd a gofal cymdeithasol neu brofiad perthnasol cyfatebol yn hanfodol, gyda gwybodaeth a dealltwriaeth arbennig o anghenion pobl fregus a'r rhai a nodir yn y grŵp targed. Gan feddu ar gymeriad agored ac agos-atoch, byddwch yn canolbwyntio ar y cwsmer ac yn teimlo cymhelliant i helpu eraill i'w cadw'n ddiogel ac yn iach mewn ffordd barchus a chyfrinachol. Bydd angen i chi allu rhoi sylw da i fanylion er mwyn ymdrin yn gywir â gwybodaeth sensitif a chyfrinachol er mwyn cydymffurfio â Diogelwch Gwybodaeth yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Yn ogystal â chynnal archwiliadau Diogel ac Iach, byddwch hefyd yn cefnogi'n rhagweithiol y gwaith o ddarparu gweithgareddau ymwybyddiaeth diogelwch tân ac ymgyrchoedd diogelwch gydag asiantaethau partner. Gall hyn gynnwys mynychu digwyddiadau ar draws ardal Gogledd Cymru i gynrychioli'r tîm Atal. Mae'n hanfodol felly bod gennych sgiliau cyfathrebu da a'ch bod yn gallu addasu eich steil i wahanol sefyllfaoedd a chynulleidfaoedd er mwyn sicrhau bod y negeseuon diogelwch yn cael eu deall. Bydd angen i chi ganolbwyntio ar y cwsmer gydag awydd brwd i helpu pobl i aros yn ddiogel ac yn iach.

Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn fwy na thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae achub bywydau a lleihau risg yn greiddiol i'n cenhadaeth fel gwasanaeth tân ac achub - ac mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae archwiliadau Diogel ac Iach ar gael yn ddwyieithog ac yn cael eu darparu yn iaith mae'r trigolyn yn dewis; mae'n hanfodol felly bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn siarad Cymraeg yn rhugl er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cyngor diogelwch a roddir.

Mae rôl y Gweithiwr Cefnogi Diogelwch Cartref yn brysur ac amrywiol a bydd angen i chi reoli eich amser eich hun yn effeithiol i sicrhau bod tasgau'n cael eu cwblhau o fewn terfynau amser. Er y gall y rôl fod yn heriol ar adegau, mae'n rôl werth chweil gwybod eich bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelwch, iechyd a lles pobl yn ein cymunedau.



# Beth allwn gynnig i chi

## Tâl

Gradd GTAGC 04

Cyflog: Cychwyn ar £26,835 gan godi i £27,711

## Oriau gwaith

Byddwch yn gweithio 37 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ein swyddfa Diogelwch Tân yng Nghanolfan Adnoddau Gwasanaethau Ambiwlans a Thân Wrecsam.

Mae teithio i safleoedd eraill ac i gartrefi pobl yn rhan allweddol o'r rôl hon ac mae trwydded yrru'r DU yn hanfodol.

Rydym yn cynnig hyblygrwydd wrth ymgymryd ag elfennau swyddfa'r rôl ac rydym yn ceisio cymaint â phosibl i gefnogi staff i gydbwyso eu bywyd gwaith a chartref. Mae gennym bolisi gweithio ystwyth i hwyluso gweithio o bell ac o gartref lle bo hynny'n ymarferol a byddwn yn trafod hyn gyda chi yn ystod cyfweliad.

## Manteision Cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Cynllun amser Fflecsi sy'n caniatáu i staff weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.

Mae apwyntiadau'n amodol ar wiriad Hawl i Weithio dilys, geirdaon boddhaol ac yn cynnal gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwch yn ymwybodol y bydd y gwiriad hwn yn canfod unrhyw euogfarnau neu rybuddion sydd wedi darfod a heb ddarfod. Cyn gwneud unrhyw gynigion ffurfiol, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref |
| **Adran** | Diogelwch Tân |
| **Yn Atebol i** | Rheolwr Partneriaeth |
| **Lleoliad** | Amrywiol |

## Pwrpas y Swydd yn Gyffredinol

Gweithio'n agos gyda grwpiau bregus mewn cymunedau yng Ngogledd Cymru (h.y. efnyddwyr alcohol a chyffuriau, yr henoed, pobl anabl) a darparu cyngor, arweiniad ac offer diogelwch i gyfrannu at eu hiechyd a'u lles.

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Rhoi cyngor am ddiogelwch cartref i grwpiau o'r fath, gan gynnwys y rhai ag anabledd.
2. Cwblhau asesiadau diogelwch yn y cartref.
3. Gweithio mewn ffordd ragweithiol gyda chymunedau, ac adnabod perygl sydd mewn perygl o dân.
4. Cynorthwyo staff y Gwasanaeth Tân ac Achub i ddarparu gwasanaethau diogelwch yn y cartref gan gynnwys addysgu a rhoi cyngor ynghylch y math o bryderon diogelwch amrywiol sydd can y cyhoedd.
5. Gweithio'n agos gydag asiantaethau perthnasol eraill, rhai cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, i gyfrannu tuag at iechyd a lles pobl fregus a allai fod mewn mwy o berygl o ddioddef tân neu'n fwy agored i newed.
6. Atgyfnerthu'r gwaith partneriaeth a wneir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.
7. Trefnu digwyddiadau a rhoi cyflwyniadau i grwpiau bregus ac i bartneriaid cysylltiedig.
8. Darparu adroddiadau ar y gwaith a wnaethpwyd neu sydd yn yr arfaeth.
9. Cadw at y drefn Diogelu Gwybodaeth yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data, a chyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â rheoli allweddi amgryptio, gan sicrhau bod y Gwasanaeth yn cadw at weithdrefnau diogelwch.
10. Unrhyw ddyletswyddau eraill dan gyfarwyddyd y Swyddog Goruchwyliol, sy'n cyd-fynd â'r swydd a'r raddfa gyflog.

# Person Specification

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau Gwybodaeth & Phrofiad** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Addysg hyd at NVQ Lefel 2 neu gyfwerth mewn pwnc yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, neu brofiad cyfwerth o weithio gyda'r grŵp targed a nodwyd. |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion y rhai sydd yn y grŵp targed a nodwyd. |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Sgiliau rhagorol mewn Technoleg Gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth ddigonol o feddalwedd Microsoft Office. |
| | Gallu rheoli eich amser a'ch llwyth gwaith eich hun, a chwrdd â therfynau amser. |
| | Gallu gweithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol, gan ddefnyddio'ch blaengaredd eich hun. |
| | Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol. |
| | Trwydded yrru lawn ar gyfer gyrru cerbydau ysgafn y Gwasanaeth. |
| | Yn amodol ar Wiriad Cofnodion Troseddol Ehangach |
| | Cymraeg Lefel 4 – Siarad a Gwrando – Yn gofyn eich bod yn medru: Cynnal sgwrs estynedig hamddenol ynglŷn â gwaith neu roddi cyflwyniad gyda lefel dda o rwyddineb ac amrywiaeth mynegiant ond efallai y bydd angen troi i iaith arall i ateb cwestiynau na ddisgwyliwyd neu i esbonio pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol. Cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd a seminarau yn eich maes gwaith chi. |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| | Dadlau o blaid / yn erbyn achos. Cymhwyster mewn Iechyd a Diogelwch (CIEH neu IOSH). |
| | Cymhwyster Cymorth Cyntaf (Cymorth Cyntaf yn y Gwaith 4 diwrnod a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). |

*Bydd angen cyflwyno tystiolaeth o gymwysterau i'w gwirio cyn cadarnhau'r apwyntiad

# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 4 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| Maes Sgil | Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | ▪ Gynnal sgwrs anffurfiol yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad gyda rhuglder ac ystod o ddywediadau ond y gall fod angen troi at iaith arall i ateb cwestiynau annisgwyl neu er mwyn esbonio materion cymhleth neu wybodaeth dechnegol.<br>▪ Cyfrannu'n effeithio i gyfarfodydd neu seminarau o fewn y maes gwaith.<br>▪ Dadlau o blaid/yn erbyn achos. |
| **Darllen** | ▪ Ddarllen a deall gwybodaeth yn eithaf sydyn, cyn belled nad oes geiriau anarferol yn cael eu defnyddio ac nad yw'n cynnwys gwybodaeth technegol neu gymhleth. |
| **Ysgrifennu** | ▪ Baratoi wahanol fathau o lythyrau ffurfiol o wahanol fathau, tebyg i ymholiadau, cwynion, ceisiadau.<br>▪ Gwneud nodiadau eithaf cywir mewn cyfarfodydd neu pan fo rhywun yn arddweud.<br>▪ Ysgrifennu adroddiad/dogfen yn ymwneud â'ch maes gwaith. |

Cynhelir asesiad Cymraeg byr yn ystod y broses recriwtio i sicrhau eich bod yn bodloni'r gofyniad Cymraeg hanfodol.



# Sut i ymgeisio

| Dyddiad cau | 12:00 ar 24ain Mawrth 2025 |
| --- | --- |

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar wefan y Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru ac fe ddylid dychwelyd y Ffurflenni Cais ar e-bost i recruitment@northwalesfire.gov.wales neu drwy gysylltu a'r Tim Recriwtio ar 01745 535281.

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech chi i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth recriwtio fel eich bod yn deall y rol a'r gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rol. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@northwalesfire.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a James Roberts (Siaradwr Cymraeg) ar 01745 343 431 ext 55484

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service